

## **Cynlluniau Atgyweirio Grŵp**

Os ydych yn berchen ar eiddo mewn ardal adnewyddu ddynodedig, efallai y cewch eich gwahodd i ymuno â chynllun atgyweirio grŵp.

### **Beth ydi cynllun atgyweirio grŵp?**

Cynllun atgyweirio grŵp yw lle gwneir gwaith atgyweirio neu adnewyddu ar rannau allanol grŵp o eiddo. Mae nifer o gynlluniau atgyweirio grŵp o fewn pob ardal adnewyddu. Gall y gwaith hwn ymestyn hyd bywyd unrhyw eiddo, a gwella edrychiad cyffredinol yr ardal.

Gall cael gwneud gwaith ar eich eiddo fel rhan o gynllun atgyweirio grŵp:

- ymestyn hyd oes eich eiddo
- gwella inswleiddiad eich eiddo, gan ei gwneud yn gynhesach ac yn fwy effeithlon o ran ynni
- gwneud eich eiddo yn fwy diogel, gan adeiladu waliau terfyn a gathiau, neu osod drysau newydd a ffenestri gyda chloeau diogelwch
- gwella ymddangosiad cyffredinol yr ardal

### **Sut mae'n gweithio?**

Does dim rhaid i chi wneud cais i ymuno â chynllun atgyweirio. Rydym yn nodi cynlluniau atgyweirio grŵp mewn ardal adnewyddu, a byddwn yn cysylltu â chi 6-8 mis cyn i'r gwaith ddechrau, i weld os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r cynllun.

Os penderfynwch ymuno, byddwn yn llunio rhestr gwaith ar gyfer eich eiddo. Byddwn yn anfon hon at ein rhestr o gontractwyr cymeradwy i gael pris. Rydym fel arfer yn dyfarnu'r gwaith i'r contractwr sy'n rhoi'r pris isaf.

### **Faint fydd rhaid i mi ei dalu?**

Er mwyn gweithio allan faint o gost y gwaith yr ydych yn atebol i'w dalu, byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn prawf modd ariannol.

Ar hyn o bryd, mae'r cyngor fel arfer yn talu 75% o'r gost, ac mae'r 25% sy'n weddill yn cael ei dalu gan berchennog yr eiddo. Mae hyn yn amodol ar brawf modd, felly bydd y swm a dalwch yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Bydd perchnogion eiddo masnachol ac eiddo sy'n cael eu gosod i denantiaid yn talu 25% o'r gost yn awtomatig. Nid yw perchnogion y mathau hyn o eiddo yn cael prawf modd.

Bydd rhaid i chi dalu eich cyfraniad cyn i'r gwaith ddechrau.

### **Telerau ac amodau**

Mae perchnogion eiddo yn ymrwmo i gytundeb cyfreithiol ysgrifenedig gyda'r cyngor.

Daw cyfrifoldeb cytundebol y cyngor i ben 6 mis ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, oni bai y nodir diffyg sylfaenol.

Os ydych yn gwerthu eich eiddo yn ystod y 3 blynedd gyntaf ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, byddwch yn atebol i ad-dalu holl gost y gwaith, ac eithrio eich cyfraniad.

Dylech ddweud wrth eich cwmni yswiriant am y gwaith.